# Bwydlen Gwaith Cartref



**Tymor yr Haf**

**Dosbarth Blodeuwedd**

**Thema: Ein Byd Rhyfeddol**

## Cwrs Cyntaf

**Gwnewch bob un yn gyson dros y tymor.**

- Darllen am bleser a darllen llyfr gosod yn wythnosol. **Cofiwch i ddychwelyd eich cofnod darllen a llyfr POB dydd Llun**

-Dysgu geiriau sillafu o'r rhestr geiriau thema a geiriau allweddol [gweler tudalen gwefan yr ysgol]

-Parhau i ymarfer tablau 6,7,8 a 9 ac atgyfnerthu'r lleill. Gwneud cysylltiadau os yw 6 x 7 = 42 beth yw 60x7 neu 6 x 0.7

- defnyddio sefyllfaoedd bywyd i ymarfer sgiliau amser analog a dogidiol

- ymarfer llaw ysgrifen

- cwblhau heriau y Dreigiau yn fisol



## Prif Gwrs



**Dewiswch 4 i'w cwblhau dros y tymor.**

- Mae coedwigoedd glaw yn llawn pethau rhyfedd a phethau mwyaf anarferol yn y byd. Ymchwiliwch i rai o'r planhigion hyn.
- Dewiswch anifail a chreu ffeil ffeithiau/Ffeithlun [Adobe Express Hwb] yn cyflwyno'r anifail gan gynnwys ei ddiet, cynefin, ffeithiau diddorol, o ble yn y byd maent yn deillio ac ati.
- Creu model o gadwyn fwyd o'ch dewis.
- Ymchwiliwch i anifeiliaid rhyfedd y byd a'u lleoli ar fap o'r byd.
- Ysgrifennwch ddarn o farddoniaeth neu stori am le sy'n arbennig i chi.
- Gwnewch rywbeth i wella eich cynefin er enghraifft plannwch flodau neu casglwch sbwriel.
- Ymchwiliwch a chasglwch ddata rhifiadol am wlad o'ch dewis e.e. nifer y boblogaeth, pellter o Gaerdydd, hyd yr arfordir ac ati

## Pwdin



**Yn ystod y tymor:**

- Crëwch boster i annog ail-gylchu, lleihau ac ailddefnyddio -efallai gwybodaeth am beth sy'n ailgylchadwy a beth sydd ddim, neu gwybodaeth am eich canolfan ail-gylchu leol.
- Dyluniwch anifail newydd ar gyfer y goedwig law.
- Edrychwch ar waith Kyffin Williams a'i dirluniau o Gymru- defnyddiwch ei arddull i greu llun o leoliad o'ch dewis

***Cofiwch eich bod yn gallu trydar eich gwaith ar @penalltau neu eu hanfon trwy Google Classroom ar Hwb neu at ebost yr ysgol ysgolPenalltau@sch.caerphilly.gov.uk**